Annwyl Gwsmer,

Mae'n dda gennyf roi gwybod i chi y byddwn, mewn cydweithrediad â Payzone, yn agor math newydd o gangen Swyddfa'r Post yn eich ardal, yn Spar – CTS Enterprise, 117 Heol Trehopcyn, Pontypridd, CF37 2PT, gan ddechrau ddydd Mercher 24 Mai 2023 am 13:00.

Er mwyn cryfhau'r rhwydwaith a gwella ei gynaliadwyedd masnachol, rydym wedi datblygu fformat hyblyg ac ysgafnach â'r enw Gollwng a Chasglu ar gyfer canghennau. Cafodd hyn ei wneud i fanteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan farchnad barseli brysur sy'n mynd yn fwy cystadleuol.

Mae arferion siopa defnyddwyr wedi newid ac mae poblogrwydd siopa ar-lein wedi trawsnewid y farchnad barseli yn gyflym. Bydd Gollwng a Chasglu yn ein helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, a bydd yn sicrhau fod gennym y rhwydwaith gorau ar gyfer parseli ym mhob rhan o'r DG. Bydd hyn yn cryfhau brand Swyddfa'r Post ac yn gwella'r gallu i gystadlu am fusnes ychwanegol oddi wrth gludwyr newydd ar gyfer y rhwydwaith ehangach

Bydd y Gollwng a Chasglu newydd yn Spar – CTS Enterprise yn cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post o ddyfais sy'n cael ei ddal yn y llaw, a'i gwneud yn hwylus i gwsmeriaid o ran talu biliau a chasglu a dychwelyd parseli rhagdaledig. Er mwyn gwella hygyrchedd y gwasanaethau hyn y mae cwsmeriaid yn chwilio'n gynyddol amdanynt, ni fydd gwasanaethau mwy cymhleth megis bancio personol a busnes ar gael yn y gangen hon. Mae manylion am yr oriau agor a'r cynhyrchion a gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld drosodd. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn y siop er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae dewis ehangach o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael gan ganghennau gerllaw yn Swyddfa Bost Y Sgwâr Ganolog, 1A Y Sgwâr Ganolog, Trallwn, Pontypridd, CF37 4PN a Swyddfa Bost Stryd y Parc, 10 Stryd y Parc, Trefforest, Pontypridd, CF37 1SN. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ein canghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a'i rhannu ag eraill a allai fod â diddordeb i glywed am y gangen newydd a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ganddi.

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Gobeithiwn y byddwch chi a'r gymuned leol yn cefnogi rhwydwaith Swyddfa'r Post yn eich ardal.

Yr eiddoch yn gywir,

*Natalie Liff*

**Natalie Liff**

**Rheolydd Cynigion**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

